EGLWYS ANNIBYNNOL

Bethlehem

GWAELOD-Y-GARTH

‘TOI A RHOI’ YM METHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

Nos Wener, 8 Mai, am 7.30, cynhelir cyngerdd arbennig, ‘Codi’r To’ ym Methlehem. Yr achlysur yw dathlu cwblhau gwaith ail-doi’r Capel a chefnogi gwaith yr elusen Bangla Cymru. Yr artistiaid fydd Côr Merched Canna, Côr Plant Ysgol Gwaelod-y-garth, a Delwyn Siôn.

Dywedodd Rhys Dafis, Ysgrifennydd y Capel: ‘Rydan ni mor llawen ein bod ni wedi llwyddo i godi’r arian a chael y to newydd yn ei le. Bydd hyn yn sicrhau diddosrwydd y Capel ar gyfer addolwyr y dyfodol. Roedd derbyn arian sylweddol oddi wrth Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) a Cadw yn hwb mawr ymlaen, a rydan ni’n ddiolchgar i’r ddau gorff am weld yn dda i’n cefnogi.’

Ychwanegodd: ‘Pa ffordd well i ddathlu na chyngerdd gan blant y pentref ac artistiaid lleol eraill, a cheisio helpu Bangla Cymru i roi bywyd gwell i blant llai ffodus ar yr un pryd.’

Dywedodd Jennifer Stewart, Pennaeth CDL yng Nghymru, ‘Mae egwlysi a chapeli Cymru yn rhan bwysig o’n treftadaeth sydd â chyswlt cryf â hunaniaeth y trefi a’r pentrefi mae’n nhw’n eu gwasanaethu. Rydym wrth ein bodd bod ein grant wedi helpu i sicrhau dyfodol Capel Bethlehem fel canolbwynt o weithgaredd cymunedol yn ogystal â man addoli.’

Supported by The National Lottery® through the Heritage Lottery Fund

Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri